YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

GOFLAWYR DI-DÂL YNG NGHYMRU A MYNEDIAD AT GEFNOGAETH ARIANNOL A STATUDOL

Gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yw bod gofalwyr yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, ac y gallant fanteisio ar gefnogaeth, cyngor ac adnoddau i'w galluogi i fyw bywydau boddhaus. Fel rhan o hyn, mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn credu na ddylai unrhyw ofalydd gael eu gwthio i dlodi neu anfantais ariannol gan eu rôl ofalu.

Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio gofalwyr di-dâl mewn ffordd sydd efallai'n wahanol i weddill y boblogaeth, gan fod y costau sydd ynghlwm wrth eu rôl ofalu yn cynyddu hefyd. Gall y costau hyn gynnwys pethau fel offer arbenigol, ynni i danio'r offer, i rai pobl, methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am resymau hygyrchedd, diet arbennig ar gyfer y person maen nhw'n gofalu amdanynt ac, i lawer, bod yn ddibynnol ar Lwfans Gofalwyr.

Prif ganfyddiadau ac argymhellion

Mae gofalwyr di-dâl yn profi cryn amrywiaethau lleol o ran gallu derbyn cefnogaeth ariannol gofalydd-benodol

- Mae angen rhagor o graffu ar y berthynas rhwng cynlluniau *cenedlaethol* Cymreig i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ariannol a'r gweithredu yn *lleol* er mwyn cael dealltwriaeth lawn o effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i pherthynas gyda pholisïau Cymreig cysylltiedig i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ariannol.
    - Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi danfon cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) at bob awdurdod lleol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yn lleol, ac unrhyw amrywiadau, o ran rhannu taliad £500 Llywodraeth Cymru yn 2022 i ddechrau'r craffu hwn. Cyhoeddir y canfyddiadau ar ffurf atodiad i'r esboniad hwn.

- Mae angen gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cynyddu incwm a chyngor ar fudd-daliadau lles, boed yn cael ei ddarparu gan fudiadau gofalwyr lleol neu eraill, a'u gallu i wella'r tebygolrwydd y bydd gofalwyr di-dâl yn derbyn Lwfans Gofalwyr neu'n cynyddu eu hincwm teuluol trwy fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill a/neu waith.

Mae gofalwyr di-dâl yn gwerthfawrogi, ac yn dibynnu ar, ffynonellau cefnogaeth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ben yr hyn a gynigir gan system nawdd cymdeithasol a budd-daliadau lles Llywodraeth y DG

- Yn dilyn model Tâl Atodol y Lwfans Gofalwyr a gyflwynwyd gan Lywodraeth Yr Alban cyn datganoli nawdd cymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyrannu'r £500 i ofalwyr bob blwyddyn yn hytrach na'i wneud yn daliad untro.

Mae gofalwyr di-dâl yn profi cryn amrywiaethau lleol o ran eu gallu i fanteisio ar eu hawl i gael asesiad o anghenion gofalydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Dylai awdurdodau lleol adrodd ar yr amserau aros i ofalwyr di-dâl, o pan maen nhw'n cael eu hadnabod yn ofalydd di-dâl, i gynnal asesiad o anghenion gofalydd.
- Gan ddefnyddio tystiolaeth yn dangos fod mwy o ofalwyr yn manteisio ar asesiadau o anghenion gofalwyr mewn ardaloedd a chanddynt fudiad gofalwyr lleol, dylid cefnogi ac annog awdurdodau lleol i weithio gyda'u mudiad gofalwyr lleol i wella'r llwybr atgyfeirio at asesiadau o anghenion gofalwyr. Lle'n briodol, gallai hynny ddigwydd trwy gomisiynu'r mudiad gofalwyr lleol i fod yn ddarparydd asesiadau o anghenion gofalwyr yr awdurdod lleol.

Mwy am yr esboniad hwn

Eir i'r afael â her benodol caledi ariannol yn yr esboniad hwn yng nghyd-destun cefnogaeth ehangach i ofalwyr di-dâl. Mae'n ystyried gallu gofalwyr i fanteisio ar gefnogaeth ariannol, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, a mathau eraill o gymorth.

Mae'r esboniad hwn hefyd yn ceisio deall y berthynas gymhleth rhwng y ffordd yr aiff awdurdodau lleol ati yn lleol i weithredu polisi a deddfwriaeth Gymreig ynghyd â pholisi i gefnogi gofalwyr di-dâl a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DG. Wrth wneud hynny, mae'r esboniad yn ystyried gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a thaliad £500 Llywodraeth Cymru yn 2022 i ofalwyr di-dâl, yn ogystal â materion a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DG megis Lwfans Gofalwyr a budd-daliadau nawdd cymdeithasol a lles eraill.

Mae'r esboniad hwn yn defnyddio ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd yn sail ar gyfer ei ddadansoddiad. Mae hyn yn cynnwys data a adroddwyd gan awdurdodau lleol a gedwir gan Lywodraeth Cymru, data ar fudd-daliadau lles a gedwir gan Lywodraeth y DG, Cyfrifiad 2021, arolwg yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr o ofalwyr di-dâl ledled y DG ac ymchwil gwreiddiol gyda gofalwyr di-dâl yng Nghymru.

Mae cyfres o fapiau gwres i esbonio ymhellach yr amrywiadau rhwng awdurdodau lleol o ran gweithredu polisi yn mynd gyda'r naratif hwn.

Cyd-destun a thystiolaeth

Gofal di-dâl yng Nghymru

Dangosodd data Cyfrifiad 2021 fod tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae hyn yn 10.5% o'r boblogaeth, tra bod nifer y gofalwyr di-dâl yn Lloegr yn cyfateb i 8.9% o'r boblogaeth. Dangosodd y Cyfrifiad hefyd fod canran uwch o bobl yn darparu gofal di-dâl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (11.5%) o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, oedd yn cynnwys y ganran isaf o bobl yn darparu gofal di-dâl (9.7%).

Gofal di-dâl a chaledi ariannol

Yn ystod mis Awst 2022 cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr arolwg ymhlith gofalwyr di-dâl ledled gwledydd Prydain am eu profiadau wrth chwilio am gymorth a'r caledi ariannol maen nhw'n ei wynebu. Dangosodd yr arolwg ledled gwledydd Prydain: fod 25% o ofalwyr di-dâl wedi gorfod gwario llai ar fwyd, fod 39% wedi torri costau eraill yn y cartref, fod 14% wedi methu talu biliau cartref mewn pryd, fod 14% wedi defnyddio banc bwyd, fod 9% wedi gwerthu eu cartref, neu wedi rhyddhau ecwiti yn eu cartref i ddal ati i dalu am nwyddau hanfodol.

Canfyddiadau

Asesiadau o Anghenion Gofalwyr a Chynlluniau Cefnogaeth

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae asesiad o anghenion gofalydd yn hawl cyfreithiol ac mae ar gyfer pob gofalydd di-dâl sydd, waeth beth yw eu hoed, yn gofalu am rywun sy'n anabl, yn sâl/dost, y mae ganddynt gyflwr iechyd meddwl neu sy'n oedrannus. Cyn gynted ag y mae'n ymddangos i'w hawdurdod lleol y gallai fod ganddynt angen cymorth, mae'n rhaid iddynt gynnig asesiad. Mae'r asesiad ei hun yn gyfle i drafod pa gefnogaeth neu wasanaethau y gallai'r gofalydd fod eu hangen i helpu gyda'u rôl ofalu a dylid cael sgwrs 'beth sy'n bwysig' fyddai'n cyfrannu at yr asesiad.

Os yw'r awdurdod lleol yn barnu fod anghenion y gofalydd yn gymwys, mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiwallu'r anghenion hynny os yw'r gofalydd yn cydsynio. Rhaid llunio cynllun cefnogi yn manylu sut fydd yr anghenion yn cael eu diwallu.

Mae'r map gwres isod yn dangos faint o ofalwyr di-dâl ymhob awdurdod lleol sydd wedi cael asesiad o anghenion gofalydd neu ailasesiad. Mae canran gyffredinol y boblogaeth sy'n ystyried eu hunain yn ofalwyr di-dâl a gafodd asesiadau yn nodedig o isel, yn amrywio o 1% ym Merthyr Tudful i 6.7% ar Ynys Môn.



O'r map, mae'n amlwg fod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cynnal nifer fach o asesiadau o anghenion gofalwyr o gymharu â chyfanswm y gofalwyr di-dâl, sy'n gwneud hwn yn fater cenedlaethol gan na chafodd mwy na 90% o ofalwyr di-dâl ymhob awdurdod lleol asesiad (neu ailasesiad) o'u hanghenion yn 2021/22.

Yn naturiol, mae yna ofalwyr di-dâl nad ydynt eisiau asesiad o anghenion gofalydd, efallai oherwydd nad ydynt ond yn gofalu am ychydig oriau'r wythnos neu oherwydd nad ydynt angen cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar y bobl sy'n gofalu am 50 awr neu ragor yr wythnos, y gallwn ragdybio fod eu cyfrifoldebau gofalu yn cyfiawnhau asesiad o anghenion gofalydd ac sy'n fwy tebygol o fod angen cymorth ychwanegol, mae'r darlun yn un pryderus.

Efallai nad yw'n syndod fod nifer y gofalwyr di-dâl sydd â chynllun cefnogi hefyd yn hynod isel ar draws Cymru. Ar Ynys Môn ynghyd â Sir Ddinbych y mae'r ganran uchaf o ofalwyr y gwyddom fod ganddynt gynllun cefnogi (6%). Ym Mhen-y-bont y mae'r ganran isaf o ofalwyr y gwyddom fod ganddynt gynllun cefnogi, sef canran trawiadol o isel o 0.1%.

O gymharu'r sawl a gafodd asesiad o anghenion gofalydd a'r sawl sydd â chynllun cefnogi, ceir cysondeb yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Er enghraifft, cafodd 2.6% o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd asesiad o anghenion gofalydd yn 2021/22 ac mae gan 2% gynllun cefnogi. Yr un eithriad yw Sir Gaerfyrddin, gan y cafodd 5% o ofalwyr yno asesiad o anghenion gofalydd yn 2021/22, ond dim ond 0.4% o ofalwyr gafodd gynllun cefnogi.

Mae hyn yn dangos, o ran gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fod amrywiadau lleol yn y ffordd y gweithredir polisi cenedlaethol, ac mae angen edrych yn fanylach er mwyn deall sut mae anghenion yn cael eu diwallu ymhob awdurdod lleol.



Derbyn Cefnogaeth Ariannol

Nawdd cymdeithasol a budd-daliadau lles – materion a gedwir yn ôl

Ar draws y DG, y prif fudd-dâl nawdd cymdeithasol ar gyfer gofalwyr di-dâl yw'r Lwfans Gofalwyr, sydd, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, wedi codi i £76.75 yr wythnos yn 2023 ond sydd er hynny'n dal i fod y budd-dâl isaf sydd ar gael. Gallai fod gan ofalwyr di-dâl hawl i dderbyn Lwfans Gofalwyr os ydynt yn gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos ac os oes gan y person maen nhw'n gofalu amdanynt hawl i dderbyn rhai budd-daliadau penodol. Fodd bynnag, gall hawlio Lwfans Gofalwyr effeithio budd-daliadau eraill y gall y gofalydd di-dâl a'r person y gofelir amdanynt eu hawlio.

O'r 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, dim ond 57,000 sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr. Mae gan gyfanswm ychwanegol o 29,000 o bobl hawl sylfaenol i dderbyn Lwfans Gofalwyr ond nid ydynt yn cael y budd-dâl hwn os ydynt yn gymwys i gael budd-dâl gorgyffyrddol, megis Pensiwn y Wladwriaeth neu'r

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn dibynnu ar gyfraniadau, sy'n cael eu talu ar gyfradd uwch.

Dangosodd arolwg diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr fod pobl sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr yn fwy tebygol o hunan-adrodd arwyddion o galedi ariannol na gofalwyr sydd ddim yn derbyn Lwfans Gofalwyr. O gofio'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr, sy'n mynnu fod person yn darparu dwyster uchel o ofal, yn ogystal â'r berthynas rhwng Lwfans Gofalwyr a phrofiad o dlodi, gall data Lwfans Gofalwyr gynnig golwg werthfawr ar y berthynas rhwng dwyster gofal, y gallu i dderbyn cymorth a chaledi ariannol.

O awdurdod lleol i awdurdod lleol, mae gwahaniaeth amlwg yn nifer y Derbynyddion Lwfans Gofalwyr. Mae Caerdydd ar un pen y sbectrwm gan fod 73.5% o ofalwyr sy'n gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr yn ei gael, tra bod Gwynedd ar y pen arall gan mai dim ond 59% o ofalwyr sy'n gymwys sy'n derbyn y budd-dâl.

Fodd bynnag, wrth gymharu canran cyfanswm y gofalwyr di-dâl sy'n gymwys i gael Lwfans Gofalwyr, nid yw'r canrannau'n fwy na 36.4% ledled Cymru ac mae llai o amrywiadau amlwg ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r un awdurdodau lleol, mae 26.5% o boblogaeth gofalwyr di-dâl Caerdydd yn gymwys i gael Lwfans Gofalwyr, ac mae 25.5% o boblogaeth gofalwyr di-dâl Gwynedd yn gymwys i gael budd-dâl. Mae hyn yn dangos fod yr angen am gymorth ariannol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn gymharol debyg a chyson ar draws y wlad, hyd yn oed os yw'r angen hwnnw'n cael ei ddiwallu'n wahanol, neu i raddau mwy neu lai mewn ardaloedd gwahanol.



Mae pam fod cymaint o wahaniaethau ledled Cymru yn nifer y gofalwyr di-dâl cymwys sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr yn un o brif themâu'r ymchwil hwn. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd ati i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a/neu'r amrywiadau rhyngddynt, gan gynnwys darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Er enghraifft, mae'n bosib fod rhai awdurdodau lleol, neu wasanaethau yn eu hardaloedd, yn fwy effeithiol yn darparu gwybodaeth i ofalwyr di-dâl am y

cymorth ariannol mae ganddynt hawl iddo neu'n trefnu cyngor ar gynyddu incwm, a bydd gofalwyr unigol hefyd yn gwneud penderfyniadau ar y trefniant nawdd cymdeithasol neu ariannol mwyaf priodol iddyn nhw, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol a theuluol a sut fyddai derbyn Lwfans Gofalwyr yn effeithio eu hawl i dderbyn budd-daliadau ar gyfraddau uwch. Er hynny, dylai effeithiau amrywiadau unigol gael eu hunioni ar lefel poblogaeth, ac ni allant felly esbonio'r gwahaniaeth trawiadol yn nifer y Derbynyddion Lwfans Gofalwyr ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Gallai argaeledd gwasanaethau cefnogi gofalwyr di-dâl a mudiadau gofalwyr lleol mewn ardal gyfrif am rai gwahaniaethau yn y ffordd yr eir ati i ddiwallu anghenion gofalwyr di-dâl ac i drefnu gwasanaethau statudol a rhwystrol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn yr ardal honno. Archwilir y ffactor honno yn fanylach yn ddiweddarach yn yr esboniad hwn.

Sylw arall gwerth ei wneud ynghylch Derbynyddion Lwfans Gofalwyr yw bod canran y gofalwyr sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr yn llawer uwch na'r ganran a gafodd asesiad o anghenion gofalydd. Rhai o'r canfyddiadau mwyaf rhyfeddol yw bod 32.9% o boblogaeth gofalwyr di-dâl Caerffili yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr (ac mae 66% o ofalwyr cymwys yn derbyn Lwfans Gofalwyr) ond dim ond 1% gafodd asesiad o anghenion gofalydd. Yn yr un modd, dim ond 1% o ofalwyr ym Merthyr Tudful sydd wedi cael asesiad o anghenion gofalydd, ond mae cymaint â 36.4% o boblogaeth gofalwyr di-dâl yn gymwys i gael Lwfans Gofalwyr (ac mae 68.5% o ofalwyr cymwys yn derbyn Lwfans Gofalwyr).

Derbynyddion Lwfans Gofalwyr gwblhawyd



Asesiadau o anghenion gofalwyr a



Mae hyn eto yn codi'r cwestiwn ynghylch sut mae gofalwyr di-dâl yn derbyn gwybodaeth am Lwfans Gofalwyr heb iddynt fod wedi cael asesiad o anghenion gofalydd. Gallai hynny fod oherwydd argaeledd gwasanaethau rhwystrol heb fod gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys presenoldeb gwasanaethau trydydd sector i

helpu pobl i gael gafael ar wybodaeth a chyngor ynghylch cynyddu incwm, sydd wedi lleihau'r angen i ofalwyr di-dâl gysylltu â'r awdurdod lleol i gael cymorth. Mae angen ystyried y posibilrwydd hwn ymhellach.

Ymagweddau polisi datganoledig

Gan nad oes gan Lywodraeth Cymru rymoedd datganoledig i effeithio'r budd-daliadau yn uniongyrchol, megis Lwfans Gofalwyr, y mae gofalwyr di-dâl yn eu derbyn, maen nhw'n ariannu rhaglenni eraill megis Cronfa Cefnogi Gofalwyr a'r grant untro £500 i ofalwyr di-dâl yn 2022.

Cronfa Cefnogi Gofalwyr

Mae Cronfa Cefnogi Gofalwyr yn rhaglen 3-blynedd rhwng 2022-25 sy'n anelu at gefnogi gofalwyr di-dâl gyda chymorth ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn rheoli grantiau i 16 o fudiadau darparu sy'n cyrraedd pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac erbyn diwedd Mawrth 2023, dosbarthwyd £903,900 i'r mudiadau hyn. Cefnogwyd 6,033 o ofalwyr yn ystod 2022-23 ac roedd mwy na 2,500 ohonynt yn ofalwyr di-dâl nad oeddent cyn hynny'n hysbys i wasanaethau nac yn derbyn cymorth. Yn wahanol i lawer o gynlluniau cymorth eraill Llywodraeth Cymru, nid yw cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Cefnogi Gofalwyr yn dibynnu ar dderbyn unrhyw un o fudd-daliadau eraill y wladwriaeth, megis y Lwfans Gofalwyr.

O blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg gwerthuso, talebau oedd y ffordd fwyaf cyffredin o dderbyn cymorth, gan fod 75.6% o ofalwyr wedi dweud eu bod yn cael cymorth trwy gynllun talebau bwyd neu nwyddau eraill. Un canfyddiad cadarnhaol o'r arolwg gwerthuso yw bod 83.8% o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu, waeth pa fath o gymorth roeddent yn ei dderbyn. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y Gronfa Cefnogi Gofalwyr, a'r mudiadau sy'n gweithredu'n lleol, i allu gofalwyr di-dâl i gael gafael ar gymorth ariannol. Fodd bynnag, mae'n amlygu'r angen am gymorth ariannol mwy hirdymor i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys y rhai a ariennir gan y rhaglen, y tu hwnt i effaith cynlluniau talebau ar y pryd.

Taliad £500 i Ofalwyr Di-dâl

Y llynedd darparwyd math arall o gymorth ariannol ar gyfer gofalwyr di-dâl oedd yn derbyn Lwfans Gofalwyr ar 31 Mawrth 2022. Roedd y grant £500 gan Lywodraeth Cymru yn gydnabyddiaeth o'u 'rôl hollbwysig' yn ystod y pandemig a'r pwysau ariannol cynyddol y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu wrth i gostau godi. Roedd y cynllun yn cael ei ariannu'n genedlaethol ond yn cael ei weithredu'n lleol, ac roedd rhaid i ofalwyr di-dâl wneud cais trwy eu hawdurdod lleol.

Mae'r model cymorth hwn, sydd i bob pwrpas yn atodol i'r Lwfans Gofalwyr, yn dilyn y model a ddarparwyd gan Lywodraeth Yr Alban trwy'r Tâl Atodol Lwfans Gofalwyr cyn datganoli nawdd cymdeithasol. Gan fod nawdd cymdeithasol o

fewn grymoedd datganoledig Llywodraeth Yr Alban erbyn hyn, mae'n cynnal diwygiad llawn o Lwfans Gofalwyr gan gynyddu cyfraddau tâl ac ehangu cymhwysedd.

Er bod y taliad £500 yn gam pwysig ymlaen yng Nghymru, gan sefydlu dull o gefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru o fewn y grymoedd datganoledig presennol fel rhan o'r 'system fudd-daliadau Gymreig' fel y'i gelwir, cafwyd beirniadaeth ynghylch y meini prawf cymhwysedd cyfyngedig a natur fyrdymor y taliad. Cyfeiriodd pobl yng Nghymru a ymatebodd i arolwg yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr at hyn, gan ddweud: "Er cymaint yr ydw i'n gwir werthfawrogi'r grant gofalwyr £500… nid yw'n helpu dros yr hirdymor gyda chostau byw yn codi, ond byddai'n gwneud gwahaniaeth bach pe bai'n digwydd bob blwyddyn…".

Wrth lunio'r esboniad hwn cynhaliwyd arolwg gyda mwy na 230 o ofalwyr ledled Cymru ac, o blith y sawl sy'n derbyn lwfans gofalwyr, hawliodd 74.5% y grant £500. Pan ofynnwyd sut roeddent yn gwario'r arian, dywedodd bron i ddau draean (62.1%) eu bod yn ei ddefnyddio i dalu biliau, a thalodd 32.4% am fwyd gyda'r grant. Mae'r ffaith fod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar hanfodion yn dangos sefyllfa ariannol ddifrifol gofalwyr di-dâl a dderbyniodd y £500, a pha mor galed mae'r argyfwng costau byw yn eu taro.

Er gwaethaf effaith drawsnewidiol bosib y taliad £500, a'r defnydd creadigol o rymoedd datganoledig i gefnogi gofalwyr di-dâl mewn caledi ariannol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r data llawn ar weithredu'r cynllun hwn. Ym mis Hydref 2022, pan oedd y cynllun wedi cau i geisiadau ond heb i bob cais gael ei brosesu, roedd 78% o ofalwyr di-dâl cymwys wedi gwneud cais llwyddiannus, Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data lleol ar y defnydd o'r cynllun hwn, sy'n golygu nad oes fawr ddim dealltwriaeth gyhoeddus am amrywiadau lleol posib.[1]

Cefnogaeth leol i ofalwyr

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn cefnogi rhwydwaith o fwy na 124 o fudiadau gofalwyr lleol ar draws Lloegr, Yr Alban a Chymru, ac mae 10 ohonynt yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau a gynigir gan bob Partner Rhwydwaith yn amrywio ond maent yn aml yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar faterion fel budd-daliadau, grantiau a help arall sydd ar gael. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae hwn yn wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gomisiynwyd ar gyfer gofalwyr di-dâl, mewn ardaloedd eraill, bydd yn fwy generig ei natur ac yn cyfeirio gofalwyr at wasanaeth IAA statudol yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae Partneriaid Rhwydwaith yn darparu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer gofalwyr

[1] Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr wedi danfon cais Rhyddid Gwybodaeth at bob awdurdod lleol er mwyn ceisio deall faint o ofalwyr a fanteisiodd ar y taliad £500 ymhob ardal. Nid oedd canlyniadau'r cais Rhyddid Gwybodaeth hwn ar gael adeg cyhoeddi hwn ond byddwn yn ei ychwanegu at yr esboniad ar ffurf atodiad. Trowch at yr Argymhellion i gael rhagor o fanylion.

di-dâl, ac mewn rhai sefyllfaoedd cânt eu comisiynu i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr ar ran yr awdurdod lleol.

Trwy'r ymchwil roedd modd cymharu awdurdodau lleol a chanddynt Bartner Rhwydwaith yn gweithredu oddi fewn iddynt a'r rhai nad oes, i weld a oes gwahaniaeth yn nifer y gofalwyr a gafodd asesiad o anghenion gofalydd, sydd yn derbyn Lwfans Gofalwyr, neu y mae ganddynt gynllun cefnogi. Pwrpas hynny yw ceisio deall sut all y ffordd y trefnir gwasanaethau yn lleol effeithio'r gefnogaeth y mae gofalwyr di-dâl yn ei derbyn.

Y cyfartaledd ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd yn 2021/22 yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Bartneriaid Rhwydwaith oedd 3.83% o ofalwyr di-dâl. Cwblhaodd Sir y Fflint, lle y mae NEWCIS (Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru) yn gweithredu, 949 o asesiadau (6% o'r gofalwyr di-dâl yn yr ardal), ond dim ond 1.3% o ofalwyr di-dâl ym Mhen-y-bont, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe gafodd asesiad y flwyddyn honno. Mae hyn yn dangos, hyd yn oed yn yr awdurdodau lleol lle y mae Partneriaid Rhwydwaith yn gweithredu, fod gwahaniaethau rhwng derbyn cefnogaeth yn y gymuned a'r llwybr at gefnogaeth gan yr awdurdod lleol.

Un ffactor arwyddocaol yn hyn fydd yr amrywiadau yn y ffordd y trefnir asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae nifer, ond nid pob un o Bartneriaid Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr, yn cael eu comisiynu gan eu hawdurdod lleol i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, gan leihau'r angen i gyfeirio pobl i rywle arall, ond mae eraill yn cyfeirio at yr awdurdod lleol a ddarparodd asesiadau o anghenion gofalwyr.

1.93% o'r holl ofalwyr yw cyfartaledd yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd yn yr ardaloedd heb Bartner Rhwydwaith yn gweithredu yno. Roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ganran uchaf ac isaf: cafodd 3.3% o ofalwyr ym Mlaenau Gwent asesiad yn 2021/22, a dim ond 1% yng Nghaerffili a Merthyr Tudful.

Partneriaid Rhwydwaith



Asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd



Dylid nodi, er gwaetha'r gwahaniaethau yn yr asesiadau a gynhaliwyd, nad oes unrhyw wahaniaeth canran rhwng nifer cyfartalog y gofalwyr y mae ganddynt gynllun cefnogi mewn ardaloedd â Phartner Rhwydwaith, a'r ardaloedd heb un (1.95%). Fodd bynnag, mae gwahaniaeth pan edrychwch ar awdurdodau lleol unigol. Yn Sir Ddinbych ac Ynys Môn, lle y mae nifer o Bartneriaid Rhwydwaith yn gweithredu, mae gan 6% o ofalwyr gynlluniau cefnogi. Mae hyn yn cymharu ag ardaloedd megis Bro Morgannwg neu Caerdydd, nad oes ganddynt Bartner Rhwydwaith, lle mai dim ond 0.2% o ofalwyr sydd â chynllun cefnogi. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ardaloedd oedd yn cynnwys y niferoedd uchaf ac isaf o asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd yn 2021/22.

Mae'r ffaith fod ardaloedd a chanddynt Bartner Rhwydwaith yn gweithredu ynddynt yn cynnwys canran uwch o asesiadau o anghenion gofalwyr a chanran uwch o ofalwyr a chanddynt gynlluniau cefnogi yn dangos effaith y mudiadau gofalwyr lleol hynny ar eu hardaloedd a phwysigrwydd y gwasanaethau a gynigiant.

Partneriaid Rhwydwaith



Gofalwyr â chynlluniau cefnogi



Nid yw'n syndod nad oes ond 1% o wahaniaeth rhwng nifer cyfartalog y gofalwyr di-dâl sy'n *gymwys* i dderbyn Lwfans Gofalwyr mewn ardal sydd â Phartner Rhwydwaith yn gweithredu ynddi ac ardal lle nad oes, sef 28.4% a 29.4% yn eu tro. Canran gyfartalog y gofalwyr di-dâl yn *derbyn* Lwfans Gofalwyr mewn ardal a chanddi Bartner Rhwydwaith yn gweithredu ynddi yw 63%, ond mewn ardal heb Bartner Rhwydwaith, mae nifer cyfartalog y gofalwyr di-dâl sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr yn uwch, ar 67%.

Gallai fod sawl esboniad yn y gwahaniaeth hwn yng nghyfradd derbyn Lwfans Gofalwyr ac mae angen ymchwilio'r rhesymau hynny ymhellach y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn. Un rheswm posib am y nifer is o Dderbynyddion Lwfans

Gofalwyr mewn ardaloedd a wasanaethir gan Bartner Rhwydwaith yw bod gan lawer o fudiadau gofalwyr lleol wasanaethau cyngor ar gynyddu incwm a budd-daliadau lles, rhai'n cael eu hariannu'n lleol a rhai'n cael eu hariannu gan elusennau, gan gynnwys trwy'r Gronfa Cefnogi Gofalwyr. Efallai y gallai'r cyngor y mae gofalwyr di-dâl yn ei dderbyn ar gynyddu incwm a budd-daliadau lles eu galluogi i dderbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar lefel uwch na Lwfans Gofalwyr neu chwilio am fathau eraill o gymorth ariannol a/neu swydd.

Partneriaid Rhwydwaith



Derbynyddion Lwfans Gofalwyr



Mae'n werth nodi, mewn unrhyw ardal awdurdod lleol, nad yw unrhyw Bartner Rhwydwaith yn gweithredu mewn gwactod. Mae rhwydwaith o gefnogaeth trydydd sector ymhob ardal fydd hefyd yn cefnogi gofalwyr, hyd yn oed os nad gofalwyr yw eu prif fuddiolwyr. Nid hwn yn wendid; mae'n dangos ei bod mor bwysig fod yr awdurdod lleol yn cefnogi ystod eang o fudiadau yn ei ardal.

Casgliadau

- Mae nifer y gofalwyr di-dâl yn derbyn asesiadau o anghenion gofalwyr yn arwyddocaol o isel ledled Cymru, ac nid yw'r uchaf ond yn 6.7%. Mae hyn yn destun pryder, gan fod asesiad o anghenion gofalydd yn hawl cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a dyma'n aml sy'n arwain at ofalwyr yn derbyn mwy o gefnogaeth.
- Y prif fudd-dâl nawdd cymdeithasol ar gyfer gofalwyr di-dâl yw Lwfans Gofalwyr, a chan fod nawdd cymdeithasol a budd-daliadau lles yn faterion a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DG, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio

eu grymoedd datganoledig yn greadigol trwy gyflwyno'r grant £500 ar gyfer gofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, fel y dywedodd gofalwyr di-dâl mewn arolwg gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae angen iddo fod yn grant blynyddol os yw'n mynd i wneud unrhyw wahaniaeth i ofalwyr di-dâl yn yr hirdymor.

- Mae cymorth ariannol i ofalwyr di-dâl yn golygu gweithredu cynlluniau cenedlaethol yn lleol, megis y Gronfa Cefnogi Gofalwyr a'r grant £500, ac er mwyn cael dealltwriaeth lawn o effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i pholisïau cysylltiol ar gefnogaeth i fanteisio ar y cymorth hwn, mae angen ymchwilio ymhellach.
- Wedi cymharu ffactorau amrywiol, megis nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd a nifer cyfartalog y gofalwyr di-dâl sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr, gydag ardaloedd awdurdodau lleol y mae ganddynt Bartner Rhwydwaith yn gweithredu ynddynt a'r rhai nad oes, mae'n amlwg eu bod yn cael effaith ar brofiad gofalwyr di-dâl o dderbyn cymorth ariannol. Yn benodol felly, mae gwasanaeth cyngor ar gynyddu incwm a budd-daliadau lles a'u gallu i alluogi mwy o ofalwyr di-dâl i dderbyn Lwfans Gofalwyr neu i gynyddu eu hincwm teuluol trwy fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill a/neu gael swydd yn hollbwysig.

Cyfeiriadau

Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr (2022) - '-Rwy'n teimlo mod i wedi diflannu Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr <https://carers.org/our-social-care-campaign/i-feel-like-ive-disappeared>

Cronfa Cefnogi Gofalwyr – Rhaglen Cefnogi Gofalwyr Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Cyfrifiad 2021 – Gofal di-dâl, Lloegr a Chymru – Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ons.gov.uk)

Tâl atodol Lwfans Gofalwyr Llywodraeth Yr Alban - Carer's Allowance Supplement - mygov.scot

Stats Cymru

- Asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, fesul awdurdod lleol (gov.wales)
- Nifer yr oedolion sy'n ofalwyr a chanddynt gynllun cefnogi ar 31 Mawrth, fesul awdurdod lleol (gov.wales)

Datganiad Llywodraeth Cymru ar y taliad £500 – Datganiad Ysgrifenedig: Taliad Cefnogi £500 i Ofalwyr Di-dâl (23 Mawrth 2022) | GOV.WALES

Offerynnau mapio WISERD - Mapping tools | WISERD DataPortal v3.6.5a

Mwy am yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yw'r elusen sy'n gweithio i drawsnewid bywydau gofalwyr di-dâl ledled gwledydd Prydain. Yng Nghymru, mae'n partneru gyda'i rhwydwaith o fudiadau gofalwyr lleol i ddarparu cyllid a chefnogaeth, darparu rhaglenni arloesol, seiliedig ar dystiolaeth a chodi ymwybyddiaeth & dylanwadu ar bolisi.

Diolchiadau

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn ddiolchgar i'r Shaw Foundation am eu cefnogaeth a'u nawdd ariannol, sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn.

Hoffem gydnabod hefyd y gefnogaeth a ddarparwyd gan WISERD wrth gyflwyno data.